

Newidiadau arfaethedig i'r amseroedd y caiff Cerbydau Nwyddau Trwm (HGV) ddanfôn nwyddau

Tachwedd 2018



Yn ystod prif gyfnod adeiladu Gorsaf Bŵer arfaethedig Wylfa Newydd, bydd cerbydau nwyddau trwm yn cael eu defnyddio i gludo rhai deunyddiau ac offer i'r safle. Rydym yn cynnig newid yr amseroedd pan ganiateir danfôn nwyddau, er mwyn cryfhau'r rhaglen adeiladu a'i gwneud yn fwy hyblyg.

Y Cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu

Ym mis Mehefin 2018, fe wnaethom ni gyflwyno ein cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) i adeiladu ac i weithredu Wylfa Newydd. Yn y cais, roeddem yn cynnig bod y rhan fwyaf o lwythi gan gerbydau nwyddau trwm yn cael eu danfôn rhwng 7am a 7pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, gyda dim mwy na 160 o lwythi'n cael eu danfôn gan gerbydau nwyddau trwm bob dydd. Fe wnaethom ddefnyddio hyn i asesu effeithiau'r prosiect cyfan ar draffig.

Y newidiadau arfaethedig

Ers hynny, rydym wedi edrych yn fanwl ar y rhaglen adeiladu ac wedi canfod bod angen cynyddu'r ffenestri danfôn arfaethedig. Byddai hyn yn caniatáu inni ymdopi â digwyddiadau annisgwyl fel tywydd garw yn effeithio ar ddanfôn nwyddau dros y môr neu oedi gyda thraffig, gan wneud yn siŵr nad yw hyn yn effeithio'n ormodol ar gymunedau a llif y traffig yn lleol. Ein cynnig yw:

- ymestyn y ffenestr ddanfôn ar ddyddiau'r wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener) tan yn hwyrach fin nos, i gynnwys danfôn nwyddau rhwng 7pm ac 11pm (gan gyfyngu uchafswm y symudiadau HGV i 20); a

- chynnwys ffenestr ddanfôn ychwanegol ar foreau Sadwrn rhwng 8am ac 1pm (gan gyfyngu uchafswm y symudiadau HGV i 50).

Byddai nifer mwyaf y llwythi sy'n cael eu danfôn gan gerbydau nwyddau trwm bob dydd a bob mis yn aros yr un fath ag a nodwyd yn ein cais DCO. Gyda mesurau lliariu ychwanegol, nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau amgylcheddol tebygol newydd neu wahanol o bwys. Ni fyddai'r newidiadau arfaethedig yn effeithio ar unrhyw o'r asesiadau eraill a gyflwynwyd fel rhan o'r cais DCO.

Caiff y newidiadau eu hegluro'n fanylach yn y ddogfen dechnegol sydd ar gael fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Rydym yn croesawu eich safbwyntiau

Os oes gennych chi sylwadau ar y newidiadau arfaethedig hyn, gallwch roi adborth i ni erbyn 6 Rhagfyr 2018 drwy anfon neges e-bost atom yn ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com neu drwy ysgrifennu atom am ddim yn **Rhadbost WYLFA NEWYDD**. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ffoniwch ni ar **0800 954 9516**.

I gael rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth ewch i'n gwefan www.horizonnuclearpower.com/ymgyngghoriad lle gallwch chi weld copi o'r ddogfen dechnegol ar gyfer y newid arfaethedig hwn. Gallwch weld manylion y cynnig gwreiddiol yn ein cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu, atodiad C2-4 (Asesiad Cludiant ar gyfer y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu) o'r Datganiad Amgylcheddol (APP-101), tabl 1-1.